# MEYLER, JAMES (1761 - 1825), gweinidog Annibynnol

**Enw:** James Meyler
**Dyddiad geni:** 1761
**Dyddiad marw:** 1825
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn 1761, ym Mhenysgwarn, Llanwnda, sir Benfro. Cafodd addysg dda yn ei ieuenctid. Bu am ysbaid yn ysgrifennydd i gyfreithiwr. Daeth yn aelod yn eglwys Rhos-y-caerau ac yno y dechreuodd bregethu. Bu yn athrofa Wrecsam dan Jenkin Lewis. Wedi gorffen ei gwrs yno cafodd alwad o'i fam-eglwys, sef Rhos-y-caerau; urddwyd ef yno 20 Hydref 1795. Cymerth ran flaenllaw, gydag eraill, yn sefydlu achosion Saesneg yn rhannau Seisnig Sir Benfro. Ar gyfrif ei wybodaeth o'r gyfraith a'i allu arbennig i ddadlau achosion dioddefwyr, cyfrifid ef yn arweinydd doeth mewn byd ac eglwys. Yr oedd yn  r diwylliedig ei feddwl, aeddfed a diogel ei farn, ac yn bregethwr a edmygid yn fawr. Bu farw yn 1825 yn 64 oed.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 35

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii 263-4


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746806


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu